Amser Stori

CYTGAN:
Unrhyw le neu unrhyw bryd,
Mae Amser Stori'n llawn cyffro a hud,
Yn yr ysgol, yn gwely neu'r lolfa,
Does dim byd yn well na stori dda.

Gallwn deithio i ben draw ein byd mawr gwych ni,
Heb symud o'r soffa wrth wrando ar stori,
Cyfarfod creaduriaid o bob lliw a llun,
A defnyddio ein dychymyg i weld pob un.

CYTGAN

Cawn deithio i'r fferm neu i'r gofod ar antur,
Dawnsio tap neu ballet neu hedfan trwy'r awyr,
Cwrdd â chymeriadau, rhai clên a rhai sy'n gas,
Tylwythen deg neu feddyg neu ddeinosor glas.

CYTGAN

Hwylio'r moroedd yr holl ffordd i Awstralia,
Neu beth am fyw mewn iglŵ draw yng Ngwlad yr Iâ,
Mae popeth yn bosib wrth ddarllen y geiriau,
Ac mae 'na swyn ym mhob un o'r tudalennau.

© 2020 S4C